

# **Camau case study: Entry**

## **Astudiaeth achos Camau: Mynediad**

**Heather Davies**

# About Heather

## Amdano Heather

Heather is a childminder in Pembrokeshire, and she has been childminding for 26 years. She currently cares for 9 children under the age of 12. Heather's main language in the home is English but her husband is a fluent Welsh speaker. She has been working very hard in the last year to introduce more Welsh into her setting with the children.


Heather embarked on her Camau journey after starting her Welsh Promise award, having recognised that the children would benefit from learning basic Welsh before they attend the local Primary School. She also feels that Welsh is important in her setting and that doing the Camau course would enable her to use it more.

The Bronze and Silver Welsh Promise also builds on Heather's commitment to and enjoyment of, embracing and celebrating the Welsh Culture. She enjoys taking the children to Carew Castle, the old miners walk and The Ironworks in Stepaside. Her father was a miner, and she talks to the children often about this. She feels that giving the children hands on experiences really enhances their learning.

Mae Heather wedi ei lleoli yn Sir Benfro ac wedi bod yn gweithio fel gwarchodwr plant ers 26 mlynedd. Ar hyn o bryd mae'n gofalu am 9 o blant dan 12 oed. Saesneg yw prif iaith y cartref ond mae ei gŵr yn rhugl yn y Gymraeg. Mae Heather wedi bod yn gweithio'n galed iawn yn ystod y flwyddyn ddiwethaf i gyflwyno mwy o Gymraeg i'w lleoliad gyda'r plant.

Cychwynnodd Heather ar ei thaith Camau ar ôl dechrau ei gwobr Addewid Cymraeg, wedi iddi gydnabod y byddai'r plant yn elwa o ddysgu Cymraeg sylfaenol cyn iddynt fynychu'r Ysgol Gynradd leol. Mae hi hefyd yn teimlo bod y Gymraeg yn bwysig yn ei lleoliad ac y byddai dilyn y cwrs Camau yn ei galluogi i wneud mwy o ddefnydd ohoni.

Ers iddi gwblhau Camau a gwobr Efydd ac Arian o'r Addewid Cymraeg, mae hyn wedi adeiladu ar ymrwymiad a mwynhad Heather i'r Diwylliant Cymreig. Mae'n mwynhau mynd â'r plant i Gastell Caeriw, taith gerdded yr hen lowyr a'r Gwaith Haearn yn Stepaside. Glöwr oedd ei thad, ac mae'n siarad yn aml gyda'r plant am hyn. Mae hi'n teimlo bod rhoi profiadau ymarferol i'r plant yn gwella eu dysgu.




## About Heather Amdano Heather

Heather is passionate about teaching the children in her care about the history of her local area. She shares books about the miners and stories told to her from her father. She created a quiz about local history and one child in particular loved the quiz and couldn't wait to tell his family about it when he was picked up. Heather has also used a variety of PACEY's Welsh resources, including some of the CEY smart courses and the Welsh Culture pack. These resources have provided Heather with ideas on ways to celebrate Welsh culture, from painting daffodils and singing Welsh songs to dressing up in traditional clothing for St David's Day and celebrating St Dwynwen's Day.

In her setting Heather feels she is beginning to use more Welsh throughout the day, and this is reflected in the children. She believes that all children in her setting will now speak at least some simple Welsh phrases such as "bore da". Heather also has a 'days of the week' board which the children are very observant with, and notice if this has not been changed from day to day. One parent noted that her little girl was coming home and speaking Welsh and couldn't believe how quickly she had picked it up.

Mae Heather yn frwd dros ddysgu'r plant yn ei gofal am hanes ei hardal leol. Mae'n rhannu llyfrau am y glowyr a straeon a adroddir wrthi gan ei thad. Creodd gwis am hanes lleol ac roedd un plentyn wrth ei fod â'r cwis ac yn methu aros i rannu gyda'i deulu. Mae Heather hefyd wedi defnyddio amrywiaeth o adnoddau Cymraeg PACEY, gan gynnwys rhai o gyrsiau CEY smart a'r pecyn Diwylliant Cymreig. Mae'r adnoddau hyn wedi rhoi syniadau i Heather ar ffyrdd o ddathlu diwylliant Cymru, o beintio cennin pedr a chanu caneuon Cymraeg, i wisgo i fyny mewn dillad traddodiadol ar gyfer Dydd Gŵyl Dewi a dathlu Dydd Santes Dwynwen.

Yn ei lleoliad mae Heather yn teimlo ei bod yn dechrau defnyddio mwy o Gymraeg trwy gydol y dydd, ac adlewyrchir hyn yn y plant. Mae pob plentyn yn ei lleoliad nawr yn siarad o leiaf rhai ymadroddion Cymraeg syml fel "bore da". Mae gan Heather fwrdd 'diwrnod yr wythnos' ac mae'r plant yn sylwgar iawn o hon ac yn sylwi os nad yw hyn wedi cael ei newid o ddydd i ddydd. Nododd un rhiant fod ei merch fach yn dod adref ac yn siarad Cymraeg ac ni allai gredu pa mor gyflym yr oedd wedi ei dysgu.



# Training influencing practice

## Hyfforddiant yn dylanwadu ar ymarfer

Heather has found the Camau course very useful and worked well for her. She also explained that the content of the course was relevant to her as a childminder, as it focuses on topics and themes that she would often use in the setting with the children day to day.

“—

*I liked the fact I could do it in my own time, as it is hard to get to do courses, as I work Monday to Friday 8am - 6pm in the week.*

*I found it very helpful that it was catered more towards childcare settings, simple Welsh which can be used with the children in my care.*

—”

Mae cwrs Camau wedi bod yn ddefnyddiol iawn i Heather ac wedi gweithio'n dda iddi. Eglurodd hefyd fod cynnwys y cwrs yn berthnasol iddi hi fel gwarchodwr plant, gan ei fod yn canolbwyntio ar bynciau a themâu y byddai'n aml yn eu defnyddio yn y lleoliad gyda'r plant o ddydd i ddydd.

“—

*Roeddwn i'n hoffi'r ffaith y gallwn ei wneud yn fy amser fy hun, gan ei bod yn anodd cael gwneud cyrsiau, gan fy mod yn gweithio o ddydd Llun i ddydd Gwener 8yb - 6yh yn yr wythnos.*

*Roedd yn ddefnyddiol iawn ei fod yn cael ei ddatblygu'n fwy tuag at leoliadau gofal plant, gyda Chymraeg syml y gellir ei defnyddio gyda'r plant yn fy ngofal.*

—”

# Training influencing practice


## Hyfforddiant yn dylanwadu ar ymarfer

The Camau training has provided Heather with resources and activity ideas to introduce and embed more Welsh language experiences throughout her practice. She has created a Welsh board game where the children are encouraged to use the Welsh colours, as well as a bilingual attendance board, which provides opportunities to introduce simple Welsh words when discussing who is at the setting and days of the week. In addition, they use the Welsh weather flash cards that Heather has created. Children are encouraged to complete this daily at the setting. Heather believes by completing these tasks daily, the children have become accustomed to using the Welsh language in their daily life at the setting.

Heather enjoys helping the young children in her care by reading Welsh stories with them and listening to Welsh audio books. She feels that she is now using more Welsh in her setting and her husband has noticed a difference in her confidence when using the language.

Mae hyfforddiant Camau wedi rhoi adnoddau a syniadau am weithgareddau i Heather i gyflwyno ac ymgorffori mwy o brofiadau Cymraeg drwy gydol ei harfer. Mae hi wedi creu gêm fwrdd Gymraeg lle mae'r plant yn cael eu hannog i ddefnyddio'r lliwiau Cymraeg, yn ogystal â bwrdd presenoldeb dwyieithog, sy'n rhoi cyfleoedd i gyflwyno geiriau Cymraeg syml wrth drafod pwy sydd yn y lleoliad a dyddiau'r wythnos. Yn ogystal, maent yn defnyddio'r cardiau fflach tywydd Cymraeg y mae Heather wedi'u creu. Anogir y plant i gwblhau hwn yn ddyddiol yn y lleoliad. Mae Heather yn credu, wrth gwblhau'r tasgau hyn yn ddyddiol, fod y plant wedi dod i arfer â defnyddio'r Gymraeg ym mywyd beunyddiol y lleoliad.

Mae Heather yn mwynhau helpu'r plant ifanc yn ei gofal drwy ddarllen straeon Cymraeg a gwrando ar lyfrau sain Cymraeg. Teimla ei bod bellach yn defnyddio mwy o Gymraeg yn ei lleoliad ac mae ei gŵr wedi sylwi ar wahaniaeth yn ei hyder wrth ddefnyddio'r iaith.



# Continuing her learning

## Parhau i ddysgu

Heather wants to continue to offer the children in her care the opportunity to learn Welsh and have a good understanding about Welsh Culture. She is also keen to progress further with her Welsh language development and build on her confidence.

“—

*I will continue to make new Welsh games and charts for the children to enjoy. I will keep visiting local historical sites and ensure the children are given the opportunity to celebrate the Welsh culture.*

*I would be interested in further training, but I feel I need to reinforce what I have learnt before progressing. I will revisit the Welsh I have learnt with Camau and then continue my learning*

—”

Mae Heather am barhau i gynnig y cyfle i'r plant yn ei gofal i ddysgu Cymraeg a chael dealltwriaeth dda o Ddiwylliant Cymru. Mae hi hefyd yn awyddus i symud ymlaen ymhellach gyda'i datblygiad Cymraeg ac adeiladu ar ei hyder.

“—

*Byddaf yn parhau i wneud gemau a siartiau Cymraeg newydd i'r plant eu mwynhau. Byddaf yn parhau i ymweld â safleoedd hanesyddol lleol ac yn sicrhau bod y plant yn cael y cyfle i ddathlu'r diwylliant Cymreig.*

Mae gen i ddiddordeb mewn hyfforddiant pellach, ond teimlaf fod angen i mi atgyfnerthu'r hyn yr wyf wedi'i ddysgu cyn symud ymlaen. Byddaf yn ailymweld â'r Gymraeg rwyf wedi'i dysgu gyda Camau ac yna'n parhau â'm dysgu.

—”

## Thinking about accessing the Camau training?

Here's what Heather has to suggest:

**Meddwl am gael mynediad i hyfforddiant Camau?**

**Dyma beth sydd gan Heather i'w awgrymu:**

“—

*I think that Camau is the best course for childminders because of their long hours of work, especially for people who cannot attend Welsh courses during the day and find it difficult to get anywhere in the evening. The Camau self-study course certainly worked for me.*

—,”

*I would definitely recommend others to have a go, even if they have little or no Welsh. The team at PACEY Cymru offered great support and offered encouragement when it was needed.*

“—

*Oherwydd yr oriau gwaith hir, dwi'n meddwl mai Camau yw'r cwrs gorau i warchodwyr plant, yn enwedig i bobl sydd methu mynychu cyrsiau Cymraeg yn ystod y dydd ac sy'n gweld hi'n anodd cyrraedd unrhyw le gyda'r nos. Yn sicr fe weithiodd y cyrsiau hunan-astudio Camau i mi.*

—,”

*Byddwn yn bendant yn argymhell eraill i roi cynnig arni, hyd yn oed os nad oes ganddynt fawr o Gymraeg, os o gwbl. Roedd tîm PACEY Cymru yn cynnig cefnogaeth wych ac yn cynnig anogaeth pan oedd ei angen.*



If you'd like further information or would like to register for the Camau courses, please get in touch with PACEY Cymru on 02920 351407 or [paceycymru@pacey.org.uk](mailto:paceycymru@pacey.org.uk)

Os hoffech ragor o wybodaeth neu os hoffech gofrestru ar gyfer y cyrsiau Camau, cysylltwch â PACEY Cymru ar 02920 351407 neu [paceycymru@pacey.org.uk](mailto:paceycymru@pacey.org.uk)

